FAQs

1) Pwy sy'n cael ymgeisio?
    a) Mae'r cynllun yn agored i'r Mentrau Iaith, ac i unrhyw gyrff neu gymdeithasau cymunedol eraill trwy gydweithrediad gyda Mentrau Iaith.
    b) Mae hyd a lled y cydweithio yn benderfyniad i'r fenter leol ond gall fod yn help marchnata, presenoldeb ar y dydd, cyswllt gydag artistiaid Cymraeg, stiwardio. Ond mae'n bwysig bod cadarnhad ysgrifenedig o'r cydweithio hwn gan pob parti yn bodoli o flaen llaw wrth wneud cais.
2) Sut mae mynd ati i ymgeisio?
    a) Bydd Menter Iaith sydd am ymgeisio i wneud cais ar gyfer gŵyl maent yn ei drefnu eu hunain yn gofyn am ffurflen gais gan MIC a'i ddychwelyd wedi'i lenwi cyn dyddiad cau yn nodi taw nhw yw'r unig drefnwyr.
    b) Bydd corff neu gymdeithas arall sydd eisiau gwneud cais yn cysylltu gyda'u menter lleol / cyfagos er mwyn gwneud cais trwy gydweithrediad gyda'r Fenter, yna'n dilyn yr un broses a'r uchod ond gan nodi dros ba gorff maent yn gwneud y cais ar eu cyfer.
3) A fydd y Mentrau yn gallu gwneud cais ar ran/mewn partneriaeth gyda chorff arall?
    a) gweler 1b
4) Beth fyddwch chi'n fodlon ariannu?
    a) Byddwn yn ariannu unrhyw elfen o ddigwyddiadau sy'n cyfateb i'r diffiniad o ŵyl gyda than 10,000 o fynychwyr sydd yn hyrwyddo'r Gymraeg a'r gymuned.
    b) Bydd disgwyl i ran o'r arian gael ei wario ar gyflogi ffotograffydd proffesiynol, gynnal system gasglu data mynychwyr (fideo / holiadur ayyb), sicrhau brand clir o'r ŵyl, fynd tuag at ariannu'r elfen newydd o'r ŵyl (os yw'r ŵyl dros 3 oed)
5) Faint fydd % lefel y grant?
    a) Bydd angen i'r ymgeiswyr fod ag o leiaf un ffynhonnell ariannol arall ar gyfer cynnal yr ŵyl ac felly ni fyddwn yn ariannu 100% o gostau'r ŵyl.
    b) Bydd y ffurflen gais yn gofyn i chi nodi beth fydd canran y cais i gyfanswm cost yr ŵyl a nodi o ble ddaw arian y canran(nau) eraill.
6) Pwy fydd yn asesu'r ceisiadau?
    a) Bydd panel annibynnol yn asesu'r ceisiadau. Ni fydd aelod o staff neu bwyllgor Menter leol ar y panel hwn nag unrhyw aelod staff o Lywodraeth Cymru
7) Sut fyddwch chi'n monitro a rhyddhau arian
    a) Byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr drwy lythyr os ydynt wedi bod yn llwyddiannus neu beidio o fewn mis wedi'r dyddiad cau. Byddwn yn prosesu'r taliad unwaith bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymateb i'r llythyr hwnnw gyda rhif archeb. Bydd yr arian yn cyrraedd eu cyfrif o fewn 10 diwrnod gwaith i'w hymatebiad a byddwn yn gofyn am gadarnhad ei fod wedi cyrraedd.
8) Sut mae delio gyda cwynion
    a) Byddwn yn delio gyda chwynion yn unol â pholisi gwynion MIC gan ddilyn rheolau Cais am Wybodaeth.